TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# City & Guilds Diploma NVQ mewn Trin Gwallt Lefel 2



**Yn gryno**

Dyma'r cwrs lefel nesaf sy'n mynd yn ddyfnach i mewn i'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn driniwr gwallt llwyddiannus.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych chi'n caru popeth sy'n ymwneud â gwallt a harddwch

... Ydych chi wedi cwblhau'r cwrs trin gwallt Lefel 1

...Ydych chi am gael cyfuniad o astudio ymarferol a damcaniaethol

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r sector trin gwallt yn symud yn gyflym a bydd cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd yn ystod ac ar ôl eich hyfforddiant.

Byddwch yn dysgu am:

Ymgynghoriadau cleient
Sgiliau derbynfa
Siampwio
Chwyth-sychu
Setting
Lliwio
Torri
Pyrmio
Hyrwyddo cynnyrch a gwasanaethau
Triniaethau gwallt/croen y pen.

Caiff y cwrs ei gyflwyno drwy gyfuniad o'r canlynol:

Ddosbarthiadau theori
Gweithdai ymarferol
Amgylcheddau salon go iawn yn y coleg
Sesiynau masnachol
Arddangosiadau
Ymarferion chwarae rôl
Gwaith grwp
Lleoliadau gwaith - naill ai bob wythnos neu mewn bloc

Byddwch hefyd yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn:

Sgyrsiau diwydiant gan arbenigwyr ym maes trin gwallt
Cystadlaethau mewnol a'r cyfle i roi cynnig ar Gystadleuaeth Sgiliau Cymru a Sgiliau'r Byd
Cyfweliadau diwydiant

Byddwch yn cael eich asesu drwy aseiniadau ymarferol ac ysgrifenedig, profion ar-lein, portffolios, lleoliadau gwaith llwyddiannus ac adborth gan gleientiaid. Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn ennill:

NVQ Lefel 2 Trin Gwallt
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Sgiliau Cyfoethogi Creadigol (gweithgareddau cymunedol ac arddangosiadau)

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gael mynediad at y cwrs, bydd angen Diploma Lefel 1 mewn Trin Gwallt a naill ai TGAU mewn Mathemateg/Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf ar radd D neu'n uwch arnoch.

Bydd angen i chi fod yn hunan-ysgogol, yn weithgar, yn rhifog ac yn meddu ar bersonoliaeth gyfeillgar. Bydd disgwyl i chi fynychu lleoliad gwaith fel rhan o'ch rhaglen. Bydd yr holl ddarpariaeth yn cymryd lle ar y campws a bydd un noson yr wythnos pan fyddwch yn y coleg tan yn hwyr. Presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer pob sesiwn yw un o brif ofynion y cwrs hwn.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Lefel 3 mewn Trin Gwallt neu gyflogaeth ar lefel prentis uwch.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Y gost am hyn yw tua £82 - £91, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2024/2025 yw £45, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.